




# Tir

## Rhwydwaith Ein Ffermydd

Ymunodd **15 fferm newydd** â Rhwydwaith Ein Ffermydd  
= **Cyfanswm o 30**

Bydd **8 o'r ffermydd** yn canolbwyntio ar brosiectau'n seiliedig ar y Tir:

- [Gwella iechyd y pridd gyda thechnoleg fonitro newydd](#)
- [Canfod y system orau ar gyfer sefydlu gwndwn llysieuol](#)
- [Systemau clyfar i reoli dŵr](#)



## Gwasanaeth Cyngori

Achosion a gefnogwyd gan y gwasanaeth:

**301** Rheoli glaswelltir a chnydau

### Adborth

“Fe wnaeth yr ymgynghorydd waith gwych, buaswn yn argymhell y gwasanaeth i unrhyw un.”  
“Gwybodus a defnyddiol iawn.”

## Grwpiau Trafod

Themâu	Nifer y Cyfarfodydd Grwpiau Trafod	Nifer yr oriau Trosglwyddo Gwybodaeth	Unigolion a gefnogwyd
Tir	25	48.5	93

Enghreifftiau o drafodaethau'n ymwneud â'r Tir:  
 Dadansoddiad Grawn YEN | Dylunio Pori |  
 Rheoli Pori yn y Gwanwyn



## Mentora

- Mae **68** unigolyn wedi cael mynediad at fentora yn ymwneud â'r thema hon yn ystod y cyfnod hwn
- Mae **275** awr o fentora yn ymwneud â'r thema hon wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod hwn
- Cynhaliwyd **81** o sesiynau mentora yn ystod y cyfnod hwn
- Roedd **28%** o'r holl sesiynau mentora'n ymwneud â'r thema hon

Mae unigolion yn gwneud cais am fentora ar y pynciau canlynol yn ymwneud â thir:



- Rheoli Glaswelltir **6**
- Cynllunio Rheoli Maetholion **1**
- Ffermio Adfywiol **1**
- Ansawdd Dŵr **3**
- Rheoli Coetiroedd **2**

Mae dyfyniadau o ddyddiaduron mentora'n cynnwys:

- “Buom yn trafod dewisiadau coed addas ar gyfer coed-borfeydd gyda cheffylau ac yn edrych ar goetir newydd, gan drafod sut i ddefnyddio triniaeth mycorhisol i wella twf.”
- “Trafodaeth yn ymwneud â Chynllun Cynefin Cymru ac Ymgynghoriad y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.”
- “Buom yn trafod ail-hadu, gan gynnwys y math o hadau, technegau sefydlu, rheoli chwyn ac amseru.”

## Agrigôp

Mae **5 cyfarfod Agrigôp** wedi'u cynnal:

- **26** o fynychwyr
- **11** awr

Bu grwpiau a fu'n cyfarfod yn ystod y cyfnod yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Ymweliad â Choed Dulas. Cafwyd cyflwyniad am yr heriau wrth sefydlu'r coed a rhai o'r ffyrdd a ganfuwyd i oresgyn yr heriau hynny, yn ogystal â rhai o'r camgymeriadau a wnaed.
- Buom yn adolygu'r ddogfen “Afon Teifi: Ein tir, ein cymuned” a photensial y ddogfen i gael ei rhoi ar waith yn ardal y Teifi. Buom yn trafod rhanddeiliaid posibl a'r ffyrdd gorau o ymgysylltu â nhw.
- Gweminar yn crynhoi papur Nuffield a ysgrifennwyd gan Dr Alice Jones ar gynaeafu ysgaw ar gyfer y diwydiant diodydd yn y DU.

## e-ddysgu



51

Cefnogwyd **38 o unigolion o 35 busnes gwahanol**. Roedd y mwyafrif o'r sector Amaeth - Bïff.

**Cwblhawyd 51 o fodiwlau.**

Roedd modiwlau poblogaidd yn cynnwys:

CWRS	Unigolion a gefnogwyd
e-ddysgu: Uned Orfodol - Diogelwch Plaladdwyr	27
e-ddysgu: Rhywogaethau Glaswelltir	3
e-ddysgu: Amaeth-Fferylliaeth - Cennin Pedr a Chlefyd Alzheimer	3

Mae 34 o fodiwlau e-ddysgu bellach ar gael ar BOSS, ac mae'r modiwlau newydd a ychwanegwyd yn cynnwys:

- e-ddysgu: Trosolwg o Lleihau, aildddefnyddio ac ailgylchu mewnbynnau, maetholion a gwastraff
- e-ddysgu: Lleihau allyriadau a gwella atafaelu ar ffermydd
- e-ddysgu: Rheoli Glaswelltir (gan gynnwys Glaswellt Amlrywogaeth a Phori Cymysg)
- e-ddysgu: Creu a Chynnal Ffrwythlondeb y Pridd (slyri/tail, cylchdroi cnydau, gwrteithiau gwyrdd)
- e-ddysgu: Cynllunio rheoli maetholion



Lansiwyd un gyfres o fodiwlau E-ddysgu achrededig newydd ar BOSS: Trosi i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Cyflwyniad i Ffermio Cynaliadwy. O'r 6 modiwl yn y gyfres, mae 3 ohonynt yn dilyn y thema Tir.

## Garddwriaeth



Cynhaliwyd 5 digwyddiad Garddwriaeth gan gefnogi 43 unigolyn o 35 busnes

Roedd y digwyddiadau'n cynnwys: Cyflwyniad i ffermio blodau, sefydlu fel tyfwr-ffermwr cynaliadwy, a Defnyddio system reoli plâu a chlefydau integredig.

Roedd 89% o'r mynychwyr yn rhoi sgôr o 4\* neu'n uwch ar gyfer cynnwys y diwrnod. Roedd 100% yn dweud eu bod wedi dysgu rhywbeth newydd.

### Adborth:

"Roedd ddoe yn wych, ac yn un o'r dyddiau astudio gorau i mi ei fynychu! Diddorol iawn, ac roedd Justine yn groesawus iawn, yn hawdd i wrando arni, yn ddoniol ac yn angerddol iawn dros flodau. Roeddwn i wrth fy modd!! Dyna'r union ddiwrnod yr oeddwn wedi'i obeithio amdano ac wedi'i disgwyl. Bu'n trafod rhywfaint am bobeth, o dyfu blodau i fusnes, ac roedd hynny'n berffaith ac yn ddefnyddiol iawn!" - Cyflwyniad i ffermio blodau



Darparwyd 20 o sesiynau cefnogi busnes garddwriaeth i 28 o unigolion o 19 busnes

Defnydd o ddŵr, technolegau newydd, effeithlonrwydd cynnyrch a chyfryngau tyfu wedi cael eu trafod yn y rhan fwyaf o sesiynau.

### Adborth:

"Roedd y sesiwn zoom yn hynod ddefnyddiol a chynhyrchiol - Sesiwn cymorth busnes Garddwriaeth yn edrych ar dwristiaeth garddwriaeth yng Nghymru, gan ganolbwyntio ar baratoi, gan gynnwys rheoli chwyn a'r mewnbynnau gofynnol."

## Hyfforddiant Achrededig



Cefnogwyd 66 o unigolion o 52 busnes gwahanol, gan gwblhau 70 o gyrsiâu hyfforddiant.

Cyflwynwyd 860 awr o hyfforddiant, gyda'r cyrsiau mwyaf poblogaidd yn cynnwys:

Cwrs	Unigolion a gefnogwyd	Oriau Hyfforddiant a ddarparwyd
Dyfarniad Lefel 2 mewn Rheoli Llygod	22	140
Arolygu ac Archwilio Coed Sylfaenol	9	58
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio	8	102
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn, Trwslifio, Torri a Phrosesu Coed hyd at 380mm	8	299

Dyfyniad gan unigolyn a gefnogwyd:

Rheoli llygod: "Roedd y cwrs cyfan yn darparu gwybodaeth hanfodol, ac roedd dysgu'r gwahaniaeth rhwng llygod mawr a llygod a ffyrdd o'u rheoli heb ddefnyddio gwenwyn yn ddelfrydol."



## Podlediad - Clust i'r Ddaear



### Rhifyn 92:

Mewnwelediad i'r sefyllfa bresennol o ran ôl-troed carbon ffermydd bïff a defaid yng Nghymru

## Clinigau



Cwblhawyd 472 o glinigau pridd

### Adborth:

"Roedd y gwasanaeth yn wych. Wedi egluro pobeth i ni gam wrth gam ac yn fanwl." "Gwasanaeth gwerthfawr a llawn gwybodaeth."

## Cymorthfeydd



Cwblhawyd 25 cymhorthfa

Roedd y pynciau'n cynnwys -



Coetir



Glaswelltir



Amaethyddiaeth adfywiol a Bioamrywiaeth

### Adborth:

"Cyfarfod da, llawn gwybodaeth"

## Dosbarthiadau Meistr



318 o fynychwyr ar draws 19 Dosbarth Meistr gan gynnwys -

- > Master Regen
- > Meistr ar Borfa
- > Meistr Gwndwn Llysieuol

### Adborth:

"Fe wnes i fwynhau'r cwrs Master Regen yn fawr. Roedd hi'n braf clywed gan ffermwyr eraill, cael trafodaeth dda a gallu ymweld â ffermydd eraill."

